Cofnodion cyfarfod **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2016 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	**Gweithredu**
PRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Carol Bell, Is-Lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carys Howell; Glenda Jones; Kay Andrews, Jessica Seaton; Rachel Hughes; Robert Pickard; Tony Atkins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Steph Mastoris, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a'r Cyfryngau Digidol; Richard Bevins, Cydgyfarwyddwr Dros Dro Casgliadau ac Ymchwil; Diane Gwilt, Cydgyfarwyddwr Dros Dro Casgliadau ac Ymchwil; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio; ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **HEFYD YN BRESENNOL**: Rebecca Johnson, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd; Carol Edwards, Y Llyfrgell Genedlaethol.	
Datgan buddiannau: Y Farwnes Kay Andrews fel Cadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru mewn perthynas ag eitem 5.2 Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, yn ogystal â'r Bil Ymchwil Addysg Uwch a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi eitem 7.1.2 Casgliadau ac Ymchwil. David Anderson fel Aelod o Fwrdd Amgueddfa Ewropeaidd y Flwyddyn, mewn perthynas ag eitem 5.8 Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.	
1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU 1.1 Croesawyd yr aelodau, Rebecca Johnson a Carol Edwards i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Hywel Ceri Jones; Keshav Singhal a Kate Clark, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.	
Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod recriwtio Ymddiriedolwyr, Parhad Busnes, Cymru Hanesyddol, Adolygiad o'r Amgueddfa, Cynllunio Ariannol a Benthyciadau Rhyngwladol, a chawsant eu briffio arnynt. ***Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd.*** ***Nid oedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol.***	
2 COFNODION 5.1 Penderfynwyd: Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Medi 2016, 31 Hydref 2016, 7 Tachwedd 2016 a 9 Tachwedd 2016.	
3 MATERION YN CODI o'r cofnodion 3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.	

Nodiadau	Gweithredu
4 POLISÏAU CASGLIADAU 4.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Gydgyfarwyddwr Dros Dro Casgliadau ac Ymchwil. 4.2 Adroddiad: Bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno gan Bennaeth Dros Dro Rheoli Casgliadau. Roedd yn rhan o Strategaeth Datblygu Casgliadau gyffredinol yr Amgueddfa, ac fe'i cyflwynwyd yma'n benodol er mwyn i'r Bwrdd ei drafod fel rhan o'r adolygiad teirblwydd parhaus o statws Achredu'r Amgueddfa. 4.3 Nododd yr Aelodau y cynnydd gyda'r Strategaeth Datblygu Casgliadau ac y byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. 4.4 Cafwyd trafodaeth ar gadw gweddillion dynol yn yr Amgueddfa; casgliad a chadwraeth Adeiladau Hanesyddol a'r modd mae'r Amgueddfa yn ymgysylltu â sefydliadau prentisiaeth ledled Cymru; adrodd am waith cloddio archeolegol; ymgysylltu cymunedol a storio casgliadau. 4.5 Cynigiwyd awgrymiadau ar adroddiadau ariannol, a'r materion ehangach am bethau nad yw'r Amgueddfa yn eu casglu o fewn y Strategaeth Datblygu Casgliadau. 4.6 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd yr adroddiad.	
5 SAIN FFAGAN: AMGUEDDFA WERIN CYMRU 5.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. 5.2 Adroddwyd: Ein bod wedi derbyn hysbysiad am gynnydd grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Cafwyd diweddariad cadarnhaol yn nhermau'r cynnydd o gymharu â'r Cynllun Gweithgarwch, lle'r oedd yr Amgueddfa yn llwyddo i ragori ar ei thargedau. Nododd yr Aelodau y cynnydd o ran yr adeiladau a'r rhaglen arddangosfeydd. Bydd cyllidebau'n cael eu diweddaru yn y flwyddyn newydd a'u cyflwyno i Grŵp Comisiynu'r Project. Erbyn hyn, £1.3 miliwn yw'r targed codi arian dros oes y project. 5.3 O safbwynt y prif adeilad, bydd y gwaith adeiladu craidd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr / dechrau Chwefror 2017. Rhagwelir y bydd contractau cyfarparu'r adeilad yn cael eu cyflwyno fis Ebrill 2017. Y nod yw agor yr adeilad yn ystod gaeaf 2018. 5.4 Dyddiad agor arfaethedig y Gweithdy yw haf 2018. 5.5 Ar ôl ymgynghori ag aelodau'r staff a'r gymuned, enw newydd yr amgueddfa fydd **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** St Fagans National Museum of History. 5.6 Trafododd yr aelodau agoriadau ac achlysuron lansio posib, digwyddiadau masnachol y dyfodol yn gysylltiedig â digwyddiadau, arddangosfeydd a	

Nodiadau	Gweithredu
gweithgareddau dysgu mewn llefydd cyhoeddus, a chyfleoedd masnachol eraill ar raddfa fawr. 5.7 Llongyfarchodd y Llywydd y tîm ar gyflwyno'r cais a sicrhau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a diolchwyd i'r Gronfa am eu gwerthfawrogiad llawn o raddfa a chymhlethdod y project. Roedd yr Amgueddfa'n hynod ddiolchgar am eu cefnogaeth lawn. 5.8 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad. Bydd strategaeth amlinellol yn cael ei chreu fel rhan o'r cynllun incwm, a cheisiadau'n cael eu hystyried ar gyfer y Gweithdy mewn perthynas â'r Stirling Prize, a gwobr Museum of the Year.	SMT
6 ADRODDIAD PERFFORMIAD AC ARIANNOL CHWARTEROL Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL 6.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 6.2 Adroddwyd: O ran y ffigurau ymwelwyr, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol eu bod yn gadarnhaol ac wedi'u cynnal yn Sain Ffagan. Yn ystod ymweliad, roedd Mark Drakeford AC wedi canmol yr Amgueddfa ar wneud y penderfyniad cywir o gadw Sain Ffagan ar agor yn ystod y gwaith ailddatblygu. 6.3 Mae Amgueddfa Cymru yn perfformio'n well nag amgueddfeydd cenedlaethol eraill hefyd. Tra bod yr Amgueddfa wedi derbyn 33 y cant yn llai o gyllid mewn termau real ers 2010, mae'r ffigurau ymwelwyr wedi aros yn gyson. Golyga hyn fod cost yr ymwelydd wedi gostwng traean, ond bod hyn ond wedi'i gyflawni gyda chryn anhawster a llawer o waith caled. Roedd y dystiolaeth hon yn herio'r camargraff nad oedd yw'r Amgueddfa'n perfformio'n dda. 6.4 Nododd yr Aelodau adroddiad diweddar King's College yn ymwneud â lleoliad hynod lwyddiannus ystafell ddosbarth yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Mae'r canlyniadau a'r effeithiau campus a gyflawnwyd yn glod i waith caled ac ymroddiad pawb fu'n gysylltiedig â'r project. 6.5 Nododd yr Aelodau fod y People's Postcode Lottery (PPL) wedi cytuno ar berthynas gyllido barhaus â'r Amgueddfa. 6.6 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod yr Amgueddfa yn cydnabod cymorth PPL mewn ffyrdd mor greadigol â phosib.	SMT
7 CASGLIADAU AC YMCHWIL	

Nodiadau	Gweithredu
7.1 **Adroddiad chwe misol am weithgareddau Casgliadau ac Ymchwil, Caffaeliadau/Rhoddion** 7.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Gydgyfarwyddwr Dros Dro Casgliadau ac Ymchwil.. 7.1.2 Adroddwyd: Bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau diweddaraf. Mae'r Pennaeth Ymchwil wedi'i benodi'n aelod o 'Peer Review College' Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae'r Uwch Guradur: Palaeontoleg wedi cyflwyno cais ar y cyd â phrifysgolion Caerdydd ac Abertawe i'r Cyngor Ymchwil Amgylchedd Naturiol am grant gwerth hyd at £60,000 tuag at amgueddfa dros dro ar ocsideiddio'r cefnforoedd. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddrafftio rhwng yr Amgueddfa a Phrifysgol Abertawe, gan adeiladu ar gytundebau sydd eisoes ar waith rhwng prifysgolion Caerdydd ac Abertawe. 7.1.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.	
8 FFRAMWAITH LLYWODRAETHU A SAFONAU CORFFORAETHOL 8.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. 8.2 Adroddwyd: Bod y Llywydd yn diolch i'r Trysorydd am gadeirio'r is-grŵp a neilltuwyd i helpu i baratoi'r ddogfen bwysig hon. Diolchodd tri Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio am eu cymorth. Mae'r ddogfen yn cyfuno amrywiaeth o wybodaeth ar faterion llywodraethu ac wedi'u hategu gan ddeunydd ychwanegol a fydd yn cefnogi'r Ymddiriedolwyr i gael dealltwriaeth lawn o rolau a chyfrifoldebau'r Amgueddfa. 8.3 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn derbyn nodyn atgoffa blynyddol o'u cyfrifoldebau. 8.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y ddogfen yn amodol ar gynnwys adran sy'n esbonio rôl y Swyddogion.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Ysgrifennydd yr Amgueddfa
Gadawodd Carol Bell y cyfarfod ar y pwynt hwn. **9 BIG PIT AMGUEDDFA LOFAOL CYMRU – ADRODDIAD Y PERCHENNOG** 9.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau. 9.2 Adroddwyd: Mai diben yr adroddiad oedd sicrhau bod yr Amgueddfa yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar fwyngloddio trwy ddarparu adroddiad blynyddol er mwyn briffio Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, fel perchnogion a gweithredwyr Big	

Nodiadau	Gweithredu
Pit, ar y gyfundrefn iechyd a diogelwch. 9.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.	
10 COFNODION DRAFFT GWAHANOL GYFARFODYDD 10.1 Derbyniwyd a nodwyd: Cofnodion Drafft: 10.1.1 Mentrau AOCC Cyf 21 Hydref 2016 10.1.2 Y Grŵp Cynghori ar Gelf 27 Hydref 2016 10.1.3 Y Pwyllgor Archwilio 15 Tachwedd 2016 10.1.4 Ymddiriedolwyr Pensiynau 16 Tachwedd 2016 10.1.5 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 17 Tachwedd 2016 10.1.6 Pwyllgor Cynghori Ymchwil 17 Tachwedd 2016 10.1.7 Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 1 Rhagfyr 2016 10.2 Adroddwyd: O ran yr Ymddiriedolwyr Pensiynau, mae 86 y cant o'r Cynllun bellach wedi'i ariannu, o gymharu â 71 y cant ychydig flynyddoedd yn ôl. Cynhaliodd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad adolygiad gofalus o gyllidebau'r Amgueddfa yn y cyfarfod a nodwyd y pwyntiau gweithredu. Roedd y Llywydd yn falch o wahodd y Bwrdd i gadarnhau'n ffurfiol benodiad yr Ymddiriedolwr Hywel Ceri Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori Ymchwil. 10.3 Nododd y Llywydd mai Kay Andrews yw Cadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru erbyn hyn, a'i bod wedi camu o'r neilltu fel aelod o Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan. Cafodd Carol Bell ei henwebu fel aelod newydd o'r Grŵp, ac yn dilyn ymddeoliad Haydn Edwards fel Is-lywydd yr Amgueddfa ddiwedd mis Medi, bydd Laurie Pavelin yn cael ei phenodi'n Gadeirydd newydd. 10.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod yr Amgueddfa yn cadarnhau ei sefyllfa o ran creu incwm o fenthyciadau i Aelodau allanol o'r Grŵp Cynghori ar Gelf. Penderfynwyd rhoi sêl bendith i benodiad Hywel Ceri Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil, a bod y Weithrediaeth yn ystyried sut i adrodd am ei weithgareddau i'r Bwrdd.	Cyfarwyddwr Cyffredinol / Cydgyfarwyddwr Dros Dro Casgliadau ac Ymchwil / Ceidwad Celf

Nodiadau	Gweithredu
11 UNRHYW FATER ARALL 11.1 Trafododd yr Aelodau dulliau o gynyddu'r pwyslais ar faterion allweddol ym mhob papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd. 11.2 Penderfynwyd: Diwygio cynllun y clawr er mwyn rhoi crynodeb gweithredol o'r papur, sy'n cynnwys mwy o gyfeiriadau at y prif bwyntiau, a beth sy'n ofynnol gan y darllenydd.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: Penderfynwyd: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9 o'r gloch y bore 16 Mawrth 2017 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.	